## Diweddariad ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol – PCYC, Chwefror 2017

### Asesiadau Llesiant Lleol

Bu cryn dipyn o weithgarwch mewn perthynas â’r Asesiadau yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae llawer o hyn wedi'i anelu at gefnogi a meithrin capasiti Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gweithgareddau nodedig yn cynnwys:

- Dau gylch o glinigau galw heibio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydweithwyr o’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i drafod cynnydd a heriau mewn ffordd anffurfiol a derbyn adborth yn syth (mis Mai a mis Medi 2016);
- Dau ddigwyddiad rhanbarthol mawr ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam a Nantgarw, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar Ddadansoddi Ymateb a dechrau paratoi ar gyfer Cynlluniau Llesiant Lleol. Roedd nifer dda iawn yn bresennol yn y digwyddiadau hyn ac roeddent yn cynnwys cyfraniadau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol a Beth sy’n Gweithio yn yr Alban (Tachwedd 2016);
- Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yn penodi partner academaidd (Dr. Alan Netherwood mewn partneriaeth â Dr Mark Lang a Phrifysgol Caerdydd) i gefnogi ei swyddfa wrth werthuso ac ymateb i’r Asesiadau (Tachwedd 2016);
- Braenaru'r tir o fewn Llywodraeth Cymru i roi adborth amserol ac ystyrlon ar bob un o'r Asesiadau a dechrau'r broses o goladu adborth gan adrannau polisi a dadansoddwyr (Ionawr 2017).

Mae'r rhan fwyaf o’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi cyhoeddi asesiadau drafft ar gyfer ymgynghori, ac ar ôl hynny cânt eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn mis Mai 2017. Oherwydd hynny, bydd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch sydd ar y gweill (gan gynnwys Digwyddiad Deallusrwydd Cenedlaethol Cymru yr Uned Ddata ym mis Mawrth 2017) yn edrych ymlaen at y cyfnod ôl-asesu a pharatoi ar gyfer Cynlluniau Llesiant Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn y broses o werthuso’r Asesiadau drafft, wrth iddynt ddod i law, gyda'r bwriad o gynnig adborth strwythuredig, adeiladol.

### Adrodd am Dueddiadau’r Dyfodol

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu proses ar y cyd, effeithiol ar gyfer Adrodd am Dueddiadau’r Dyfodol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi Adroddiad cychwynnol am Dueddiadau’r Dyfodol erbyn mis Mai. Bydd yr adroddiad cychwynnol hwn yn ceisio nodi’r tueddiadau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol y bydd angen i sefydliadau Cymreig eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr i ymgysylltu yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn gynrychioliadol ac yn gywir yn y modd y mae’n portreadu'r tueddiadau allweddol y mae Cymru yn eu hwynebu, yn ogystal â’r effeithiau y byddant o bosibl yn eu cael.

Mae'n hanfodol bod proses Adrodd am Dueddiadau'r Dyfodol yn cael ei datblygu drwy gydweithredu gwirioneddol rhwng y sefydliadau hynny fydd yn ei defnyddio. Felly bwriadwn yn fuan sefydlu ffolder cyffredin ar-lein, y gellir ei ddefnyddio i rannu fersiynau pellach o'r adroddiad gydag aelodau allanol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i gael adolygiadau a sylwadau, yn ogystal â darparu'r gallu i bawb rannu data a graffiau tueddiadau'r dyfodol a allai fod yn ddefnyddiol. Dangosodd un gweithdy Adrodd am Dueddiadau'r Dyfodol blaenorol, yn y digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd, fod y farn gyffredinol o blaid dogfen gymharol gryno a hawdd ei deall, sy'n nodi'r tueddiadau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol mewn 6 prif faes: Poblogaeth, yr Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol.

Dechrau'r broses adrodd yn unig fydd cyhoeddi'r ddogfen gychwynnol hon. Y tu hwnt i hyn, y gobaith yw rhoi mwy o allu i sefydliadau Cymru ganfod effaith bosibl tueddiadau yn y dyfodol ac adeiladu senarios posibl ynghyd ag ymatebion ar lefel y dinesydd i mewn i'r broses gynllunio tymor hir.

Mae gweithgareddau penodol nodedig yn cynnwys:

- Gweithdy Adrodd am Dueddiadau'r Dyfodol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn dau ddigwyddiad rhanbarthol yn Wrecsam a Nantgarw. Defnyddir yr adborth o'r rhain ar gyfer datblygiad pellach (Tachwedd 2016);
- Trafodaeth bellach â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn digwyddiad yn Llandrindod ar y 6$^{ed}$ o Chwefror 2017;
- Sefydlu grŵp allanol 'rhithwir' ar gyfer adolygu Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn ystod mis Chwefror 2017;
- Sefydlu grŵp polisi mewnol 'rhithwir' yn ystod mis Chwefror 2017;
- Cydweithredu a drafftio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cychwynnol yn ystod mis Chwefror a dechrau Mawrth, yn y gobaith o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet ddiwedd mis Mawrth 2017.

## Adroddiad llesiant blynyddol

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r adroddiad llesiant blynyddol cyntaf a fydd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y nodau llesiant drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol. Rydym yn anelu at gyhoeddi yn ystod yr haf.